

MEMORANDWM OFFERYN CYDSYNIAD STATUDOL

Rheoliadau Gwastraff a Thrwyddedu Amgylcheddol etc. (Swyddogaethau Deddfwriaethol a Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020

1. Gosodir y Memorandwm Offeryn Cydsyniad Statudol hwn o dan Reol Sefydlog 30A.2. Mae Rheol Sefydlog 30A yn rhagnodi bod yn rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ac y caniateir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron y Senedd os bydd Offeryn Statudol y DU yn gwneud darpariaeth, mewn perthynas â Chymru, sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
2. Gosodwyd Rheoliadau Gwastraff a Thrwyddedu Amgylcheddol etc. (Swyddogaethau Deddfwriaethol a Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020 gerbron Senedd y DU ar 20 Hydref 2020. Mae'r rheoliadau ar gael yn:

<https://statutoryinstruments.parliament.uk/timeline/pBNWzAvN/SI-2020/>

Crynodeb o'r Offeryn Statudol a'i amcan

3. Amcan yr Offeryn Statudol (OS) yw mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir wrth weithredu'n effeithiol, a diffygion eraill sydd wedi codi o ganlyniad i'r DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, fel y darperir ar eu cyfer gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae hefyd yn cywiro cyfeiriadau at ddeddfwriaeth yr UE nad ydynt bellach yn gyfredol.
4. Mae'r OS yn gwneud diwygiadau i:
 - Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

Darpariaeth berthnasol i'w gwneud gan yr OS

5. Roedd angen y newidiadau a wnaed gan y Rheoliadau hyn gan fod deddfwriaeth berthnasol yr UE wedi newid, a deddfwriaeth newydd yr UE wedi cael ei mabwysiadu ers i'r OSau presennol mewn perthynas ag ymadael â'r UE gael eu gwneud. Mae angen i bwerau ddychwelyd i'r DU, ac roedd angen rhai diwygiadau o ganlyniad i brotocol Gogledd Iwerddon.
6. Roedd y Rheoliadau yn sicrhau bod deddfwriaeth ddomestig bresennol a deddfwriaeth yr UE a ddargedwir yn parhau i fod yn addas i'r diben. Er enghraifft, roeddent yn diweddar cyfeiriadau at ddeddfwriaeth ddomestig mewn perthynas ag ymadael â'r UE fel eu bod yn cyfeirio at Gyfarwyddbau a Rheoliadau gwastraff ac adnoddau fel y'u diwygiwyd gan Becyn Economi Gylchol yr UE. Roeddent hefyd yn dirymu neu'n gwneud diwygiadau a oedd yn gysylltiedig ag ymadael â'r UE i ddeddfwriaeth ddiweddar yr UE, a fydd yn dod yn gyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir. Bydd pwerau'r Comisiwn Ewropeaidd sy'n gysylltiedig ag Erthygl 7(1) o'r Gyfarwydddeb

Fframwaith Dŵr bellach yn cael eu harfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r gweinyddiaethau datganoledig fel sy'n briodol.

7. Roedd rhan 3 o'r Rheoliadau yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990; gan hepgor adran 62A. Fel diwygiad canlyniadol i drosglwyddo'r pŵer yn Erthygl 7(1) mewn perthynas â'r Rhestr Wastraffoedd, mae'r pŵer yn adran 62A o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn cael ei dirymu.
8. Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr, neu Weinidogion Cymru yng Nghymru, restru gwastraff fel gwastraff peryglus yn y Rhestr Wastraffoedd a sefydlwyd gan Benderfyniad y Comisiwn 2000/532/EC. Pan fydd y pŵer yn Erthygl 7(1) wedi cael ei drosglwyddo, nid ystyriwn y bydd angen y pŵer yn adran 62A. Y sail resymegol yw mewn amgylchiadau lle na restrir gwastraff penodol fel gwastraff peryglus, ond mae'n dangos nodweddion Atodlen 3, yr ateb amlwg yw gwneud diwygiad i Benderfyniad 2000/532 i adlewyrchu hynny, yn hytrach nag arfer y pŵer yn adran 62A.

Pam mae'n bwysig i'r OS wneud y darpariaeth hon

9. Nid oes gwahaniaeth rhwng polisi cywiro Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Felly, byddai gwneud OSau gwahanol yng Nghymru a Lloegr yn arwain at ddyblygu a gwneud y Llyfr Statud yn gymhleth yn ddiangen. Mae cydsynio i'r OS hwn yn sicrhau bod fframwaith deddfwriaethol sengl ar draws Cymru a Lloegr, sy'n hybu eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. Yn yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan ni yn yr achos hwn.

Lesley Griffiths AS
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Hydref 2020